

Hydref 2012



Mae'n bleser gennyf amgáu'r rhifyn diweddaraf o'r Bangoriad. Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am y datblygiadau diweddaraf yma ym Mhrifysgol Bangor ac y bydd yn dod ag atgofion melys am eich amser yma yn ôl i chi.

Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i gael rhannu rhai o'r atgofion melys hyn yn ystod yr aduniadau diweddar a gafodd eu cynnal eleni. Cewch wybod mwy amdanynt y tu mewn i'r cylchgrawn.

Ffordd arall o rannu'ch atgofion melys am eich dyddiau yn y brifysgol gyda ni yw drwy'r telethon. Ddwywaith y flwyddyn mae'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn cynnal ymgyrchoedd telethon lle mae myfyrwyr presennol yn ffonio nifer fechan o'n cyn-fyfyrwyr. Mae dau reswm dros y galwadau hyn: yn gyntaf er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng yr alumni a'r Brifysgol drwy sgysiau anffurfiol am atgofion am eich amser ym Mangor a chlywed am brofiadau myfyrwyr Bangor heddiw, yn ogystal ag er mwyn rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau diweddar. Yr ail bwrpas yw er mwyn dweud wrthyf am Gronfa Bangor a rhoi cyfle i chi ymuno â'r haid o alumni eraill sydd yn cyfrannu at y gronfa amhrisiadwy hon. Diolch yn fawr iawn i'r rhai ohonoch sydd wedi cyfrannu'n barod.

Gallwch wneud cyfraniadau i gronfa sydd heb gyfyngiadau, Yr Angen Mwyaf, fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer anghenion mwyaf brys y Brifysgol, neu gallwch ddewis rhoi i un o dri chategori cyffredinol:

1. **Cefnogi Myfyrwyr** – yn cynnwys ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau caledi i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig. Fel y gwyddoch, eleni yw'r flwyddyn lle bydd y myfyrwyr cyntaf yn talu ffioedd dysgu uwch. Ni fu erioed amser mor bwysig i gefnogi myfyrwyr.
2. **Gwella'r Campws** – yn cefnogi ymdrechion y Brifysgol i warchod ei hetifeddiaeth bensaernïol a sicrhau bod y myfyrwyr yn astudio mewn adeiladau sy'n symbylu dysgu o'r safon uchaf.
3. **Cefnogi Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg** – cefnogi ystod eang o weithgareddau Cymraeg a Chymreig.

Eleni, mae'r grantiau'n cynnwys: grantiau caledi i 54 o fyfyrwyr a oedd angen cefnogaeth ariannol am resymau fel anabledd, salwch neu amgylchiadau teuluol; llifoleuadau symudol ar gyfer meysydd chwaraeon sy'n caniatáu tair gwaith cymaint o sesiynau hyfforddi i glybiau myfyrwyr; a Cymorth Cymraeg Rhan Dau, gwefan i helpu staff a myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. (Gallwch ddarllen mwy am y grantiau a roddwyd yn y Bangoriad am fwy o wybodaeth am y gwobrau a roddwyd.)

Gan mai dim ond gyda chyfran fechan o'n cyn-fyfyrwyr y byddwn yn cysylltu yn ystod pob telethon, mae'n annhebygol y byddwch yn derbyn galwad ffôn. **Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech beidio derbyn galwad ffôn gan fyfyrwr presennol eleni, cysylltwch â Paula Fleck, ein Gweinyddwr Datblygu ar 01248 382020.**

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen eich copi o'r Bangoriad ac y cawn eich gweld ym Mangor eto'n fuan.

Yr eiddoch yn gywir,

Yr Athro John G. Hughes PhD FBCS
Is-Ganghellor